

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 172(2)(a) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar
gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol
(Cymru) (Diwygio) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2901 (Cy. 280)) ("Rheoliadau 2013").

Mae Rheoliadau 2013 yn sicrhau bod yr hawl i gyfnodau o absenoldeb teuluol ar gael i aelodau awdurdodau lleol. Mae pum math o absenoldeb teuluol: absenoldeb mamolaeth; absenoldeb newydd-anedig; absenoldeb mabwysiad; absenoldeb mabwysiadu newydd ac absenoldeb rhiant.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn amnewid amrywiol reoliadau yn Rheoliadau 2013 fel a ganlyn.

Mae rheoliad 2(2) yn rhoi rheoliad 14 newydd yn lle'r un bresennol, sy'n rhagnodi amodau y mae rhaid i aelod eu bodloni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer absenoldeb mabwysiad. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y caniateir amrywio hyd absenoldeb mabwysiad neu'r dyddiad y mae absenoldeb mabwysiad yn dechrau.

Mae rheoliad 2(3) yn rhoi rheoliad 15 newydd yn lle'r un bresennol, sy'n darparu mai cyfnod absenoldeb mabwysiad yw 26 o wythnosau oni bai bod yr aelod yn darparu hysbysiad ysgrifenedig i'r gwrthwyneb (o dan reoliad 14) neu'n terfynu'r cyfnod absenoldeb mabwysiad (o dan reoliad 17A).

Mae rheoliad 2(4) yn rhoi rheoliad 16 newydd yn lle'r un bresennol, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch pryd y caniateir i gyfnod absenoldeb mabwysiad ydd ddechrau.

Mae rheoliad 2(5) yn rhoi rheoliad 17 newydd yn lle'r un bresennol, sy'n darparu, yn ddarostyngedig i reoliad 16, y caniateir i aelod o awdurdod lleol (fel y'i diffinnir yn adran 33 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) ddewis pryd y mae ei absenoldeb mabwysiad ydd yn dechrau.

Mae rheoliad 2(6) yn mewnosod rheoliad 17A newydd sy'n gwneud darpariaeth ynghylch sut y caiff aelod o awdurdod lleol derfynu ei absenoldeb mabwysiad ydd yn gynharach na diwedd y cyfnod a bennir yn rheoliad 15, y rhoddwyd hysbysiad yn ei gylch o dan reoliad 14(b)(ii) neu a amrywiwyd o dan reoliad 14(d).

Mae rheoliad 2(7) yn diwygio rheoliad 38 fel ei fod yn gymwys i absenoldeb mabwysiad ydd. O ganlyniad, caiff aelod o awdurdod lleol fod yn bresennol mewn cyfarfodydd a chyflawni dyletswyddau yn unol â'r rheoliad hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 172(2)(a) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar
gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol
(Cymru) (Diwygio) 2021**

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 26(1), (2), (4) a (5)(a) o Fesur Llywodraeth Leol 2011(1).

Yn unol ag adran 172(2)(a)(2) o'r Mesur hwnnw, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

-
- (1) 2011 mccc 4. Hepgorwyd adran 26(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gan adran 61(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1), gan ddileu'r terfyn ar hyd absenoldeb mabwysiad y caniateir ei bennu mewn rheoliadau. Gweler adran 33 am y diffiniad perthnasol o "rheoliadau" ac adran 175 am y diffiniad o "rhagnodedig".
- (2) Mae'r cyfeiriad yn adran 172(2) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Diwygiwyd adran 172(2)(a) gan adran 150(1)(b)(i) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; mae adran 150(1)(b)(ii) hefyd yn gwneud diwygiad arall i adran 172(2)(a) nad yw mewn grym eto.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

Diwygio Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013

2.—(1) Mae Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013⁽¹⁾ wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 14 rhodder—

“Amodau rhagnodedig

14. At ddibenion adran 26(1) o'r Mesur, yr amodau rhagnodedig yw—

- (a) bod yr aelod yn fabwysiad ydd i'r plentyn;
- (b) bod yr aelod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd am—
 - (i) y dyddiad y mae'r aelod yn bwriadu i absenoldeb y mabwysiad ydd ddechrau; a
 - (ii) hyd y cyfnod o absenoldeb mabwysiad ydd y mae'r aelod yn bwriadu ei gymryd, os yw'n llai na 26 o wythnosau;
- (c) pan fo'r aelod yn dymuno amrywio dechrau'r absenoldeb mabwysiad ydd sydd wedi ei bennu o dan baragraff (b)(i), bod yr aelod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd o'r dyddiad dechrau newydd o leiaf un wythnos cyn y dyddiad a bennir o dan baragraff (b)(i), neu o leiaf un wythnos cyn y dyddiad newydd, pa un bynnag sydd gynharaf, neu, os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol; a
- (d) pan fo'r aelod yn dymuno amrywio hyd yr absenoldeb mabwysiad ydd, bod yr aelod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd o'r hyd newydd o leiaf un wythnos cyn diwedd y cyfnod o absenoldeb a ddisgwylir yn unol â'r hyd a bennwyd o dan baragraff (b)(ii),

(1) O.S. 2013/2901 (Cy. 280).

neu o leiaf un wythnos cyn diwedd arfaethedig newydd y cyfnod o absenoldeb, pa un bynnag sydd gynharaf, neu os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.”

(3) Yn lle rheoliad 15 rhodder—

“Y cyfnod o absenoldeb mabwysiaddd

15.—(1) Y cyfnod o absenoldeb mabwysiaddd yw 26 o wythnosau, oni bai bod yr aelod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o dan reoliad 14(b)(ii), (d) neu 17A y bydd y cyfnod o absenoldeb mabwysiaddd yn llai na 26 o wythnosau.

(2) Pan fo mwy nag un plentyn yn cael ei leoli gyda'r aelod fel rhan o'r un trefniant, nid oes gan yr aelod yr hawl i absenoldeb mabwysiaddd ond mewn perthynas â'r plentyn cyntaf a leolir gyda'r aelod ar gyfer ei fabwysiadu.”

(4) Yn lle rheoliad 16 rhodder—

“Pryd y caniateir cymryd absenoldeb mabwysiaddd

16. Ni chaniateir cymryd absenoldeb mabwysiaddd ond fel ei fod yn dechrau naill ai—

(a) ar y diwrnod y mae'r plentyn yn cael ei leoli gyda'r aelod ar gyfer ei fabwysiadu; neu

(b) ar unrhyw un o'r 14 o ddiwrnodau cyn y diwrnod hwnnw.”

(5) Yn lle rheoliad 17 rhodder—

“Aelod i ddewis dyddiad dechrau'r absenoldeb mabwysiaddd

17. Yn ddarostyngedig i reoliad 16, caiff aelod ddewis ar ba ddyddiad y mae ei absenoldeb mabwysiaddd i ddechrau.”

(6) Ar ôl rheoliad 17 mewnosoder—

“Terfynu cyfnod o absenoldeb mabwysiaddd

17A. Caiff aelod derfynu cyfnod o absenoldeb mabwysiaddd yn gynharach na diwedd y cyfnod a nodwyd yn rheoliad 15, a hysbyswyd o dan reoliad 14(b)(ii) neu a amrywiwyd o dan reoliad 14(d) drwy hysbysu'r pennaeth gwasanaethau democrataidd yn ysgrifenedig o'i

fwriad i wneud hynny o leiaf 7 niwrnod cyn iddo ddychwelyd.”

(7) Yn rheoliad 38(1), ar ôl “absenoldeb mamolaeth” mewnosoder “; absenoldeb mabwysiaddd”.

Enw

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion

Cymru

Dyddiad